Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Maes y Ffynnon
Penrhosgarnedd
BANGOR
Gwynedd LL57 2DW

Ebost/Email:
alison.brown@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn/Phone: 01248 387276

Mr Martin Bates
Cyfarwyddwr Prosiect
Yr Uned Prosiectau Seilwaith – Trafnidiaeth
Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD CF10 3NQ

14 Rhagfyr 2013

Annwyl Mr Bates,

**Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd – Adroddiad Amgylcheddol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.**

Diolch ichi am roi'r cyfle i Dîm Asesu Strategol Cyfarwyddiaeth Lywodraethu Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig sylwadau ar Goridor yr M4 o amgylch Casnewydd: Adroddiad Amgylcheddol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Gwneir ein sylwadau yng nghyd-destun ein cyfrifoldebau o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 ac fel cynghorwyr statudol i Lywodraeth Cymru ynghylch treftadaeth ac adnoddau naturiol Cymru a'i dyfroedd arfordirol. Nid rôl y Tîm Asesu Strategol yw cynnig sylwadau ar y cynigion ar gyfer Coridor yr M4 ei hun. Caiff y materion hyn eu hystyried gan Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r De yn Cyfoeth Naturiol Cymru mewn ymateb ar wahân. Dylid, fodd bynnag, darllen ein sylwadau ar yr Adroddiad Amgylcheddol hwn yng nghyd-destun ein hymateb i gam cwmpasu'r broses asesu hon dyddiedig 16eg Awst 2013.

Mae ein sylwadau penodol ar yr adroddiad wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 at y llythyr hwn. Ceir sylwadau ar faterion allweddol isod.

- Nodwn â diddordeb fod yr asesiad yn cyfeirio at godi colofnau pont o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afon Wysg. Mae'r datganiad hwn yn awgrymu rhyw ystyriaeth i ddyluniad y ffordd a'r bont nad yw wedi cael ei rhannu â ni ac sy'n rhagfarnu'r trafodaethau ar y cam dylunio a phrosiect. Cyfeiriwch at ein sylwadau ar yr adroddiad *Ystyriaeth o'r Opsiynau ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd gan Ystyried Gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd [Consideration of the Options for the M4 Corridor around Newport with Regard to the Requirements of the Habitats Regulations]*.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

- Nodwn y datganiad mai prif elfen y Cynllun drafft yw darparu traffordd dair lôn, sy'n cael ei dangos fel y llwybr du. Fel y'i hysgrifennwyd, mae hyn yn awgrymu bod y llwybr a ffefrir eisoes wedi cael ei 'ddewis' a bod llwybrau eraill (y Llwybrau Coch a Phorffor), ac opsiynau amgen wedi cael eu diystyru o'r Cynllun drafft. Byddem yn croesawu eglurhad o gofio mai diben yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw 'cyfrannu at' y broses benderfynu.

- Croesawn y gosodiad fod ymatebion cwmpasu wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi'r adroddiad amgylcheddol hwn. Er bod Atodiad A yn cynnwys copïau o ymatebion yr ymgyngoreion statudol, nodir nad yw ymatebion gan sefydliadau eraill, yn cynnwys yr RSPB, wedi cael eu cynnwys. Ni ddarparwyd unrhyw sylwebaeth ar sut mae'r ymatebion cwmpasu 'wedi cael eu cymryd i ystyriaeth' yn y broses asesu ac yn yr adroddiad amgylcheddol hwn. Mae'r ofynnol yn ôl y Gyfarwyddeb i ymatebion ymgynghori gael eu hystyried wrth baratoi cynllun neu raglen a chyn ei fabwysiadu, ac awgrymir felly y dylid cynhyrchu sylwebaeth sy'n dangos sut mae'r ymatebion ymgynghori wedi cael eu hystyried o fewn y broses asesu hon.

- Yn ein llythyr ymateb ar 16 Awst 2013 i gam cwmpasu'r broses asesu hon, gwnaethom y sylwadau canlynol ynglŷn ag amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol arfaethedig. Mae'n siomedig nad yw'r awgrymiadau hyn ynglŷn â'r amcanion wedi cael eu cymryd i ystyriaeth yn ôl pob golwg yn ystod y broses asesu hon:

    - Dywedasom y byddai gofyn rhoi ystyriaeth bellach i ansawdd yr aer a dyddodi llygryddion, yn enwedig ddyddodi nitrogen, NOx, SO2, ac ati. Nid yw'n ymddangos bod yr awgrym hwn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth yn ystod y broses asesu hon.

    - Awgrymasom y dylai effaith y seilwaith trafnidiaeth arfaethedig ar lifogydd a gâi eu hachosi i dderbynyddion eraill (e.e. draenio a'r swyddogaeth hydrolegol) fod wedi cael eu hystyried fel effaith arwyddocaol (bosibl) o fewn y broses asesu hon. Byddai hefyd wedi bod yn fuddiol i'r broses asesu hon ystyried sut y bydd y cynigion yn 'addasu' i effeithiau newid hinsawdd, yn cynnwys llifogydd.

    - Argymellasom y dylai materion tawelwch cyffredinol gael eu cynnwys yn y broses asesu hon, ond nid ymddengys bod hynny wedi digwydd. Byddem yn awgrymu ymhellach y dylai sŵn a dirgryndod fod wedi cael eu hystyried yng nghyd-destun bioamrywiaeth (ac yn arbennig effeithiau posibl sŵn a dirgryndod ar rywogaethau pysgod mudol sy'n gysylltiedig ag afon Wysg).

- Ni allwn gytuno â chasgliadau'r asesiad mai 'effaith negyddol fach' a geid ar fioamrywiaeth ac argymhellwn fod hyn yn cael ei newid i 'effaith negyddol fawr', ar sail colli arwynebedd SoDdGA yn uniongyrchol ac anuniongyrchol o'r safleoedd SoDdGA ar Wastadeddau Gwent pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt. Ar y lefel strategol hon, teimlwn ei bod yn rhy gynnar i allu dweud y byddai modd lliniaru pob effaith. Nodwn i'r arfarniad a gynhaliwyd fel rhan o ddogfen ymgynghori'r Cynllun drafft, 'Coridor yr M4 o amgylchedd Casnewydd', ddod i'r casgliad y byddai i'r cynllun arwyddocâd niweidiol mawr i fioamrywiaeth. Cyfeiriwn chi at sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Cynllun drafft, yn arbennig o safbwynt bioamrywiaeth, a byddem yn argymell y dylai'r ddwy broses asesu fod yn gyson ac y dylent ddod i'r un casgliadau sef 'effaith negyddol fawr ar fioamrywiaeth'.

- O dan broses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, mae'n ofynnol ystyried effeithiau eilaidd, cronnus, synergaidd, tymor byr, canolig a hir parhaol a dros dro, cadarnhaol a negyddol (Atodiad 1, f(1)). Byddem yn croesawu eglurhad ynglŷn â pham nad yw'r effeithiau cronnus ond wedi cael eu hystyried mewn perthynas â chynlluniau trafnidiaeth a Chynllun Gofodol Cymru.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r sylwadau hyn, mae croeso ichi gysylltu ag Alison Brown yn ein swyddfa ym Maes y Ffynnon, Bangor.

Yn gywir

**Clive Thomas**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu**

**Atodiad 1:**

**Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd – Adroddiad Amgylcheddol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.**

**1: Cyflwyniad**
Nodwn y datganiad mai prif elfen y Cynllun drafft yw darparu traffordd dair lôn, sy'n cael ei dangos fel y llwybr du. Fel y'i hysgrifennwyd, mae hyn yn awgrymu bod y llwybr a ffefrir eisoes wedi cael ei 'ddewis' a bod llwybrau eraill (y Llwybrau Coch a Phorffor), ac opsiynau amgen wedi cael eu diystyru o'r Cynllun drafft. Byddem yn croesawu eglurhad o gofio mai diben yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw 'cyfrannu at' y broses benderfynu.

Nodwn a chroesawn y bwriad i gynnal astudiaeth ar wahân o'r cynigion yn ymwneud â mesurau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n siomedig nad oes modd cynnwys y materion trafnidiaeth gyhoeddus hyn yn y broses asesu, un ai yng nghyd-destun 'dewisiadau amgen rhesymol' neu fel mesurau lliniaru posibl o safbwynt effeithiau niweidiol arwyddocaol.

**1.2:** Nodwn y cyfeiriad at dagfeydd yn ystod 'cyfnodau brys ar ddiwrnodau gwaith'. Byddem yn croesawu eglurhad pa un a yw tagfeydd wedi'u cyfyngu i'r cyfnodau amser hyn.

**2.5:** Dylid cyfeirio at Fapiau Mannau Tawel Cymru (y Cyngor Cefn Gwlad 2009) sydd hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, yng nghyd-destun dangosydd 'datblygu cynaliadwy'.

**Adran 2.6.2:** Gweler y sylwadau uchod ar 1: Cyflwyniad**.** Mae'r adran hon yn cyfeirio at y mesurau trafnidiaeth gyhoeddus sydd wedi'u cynnwys ym Mesurau Gwella Coridor (CEM) yr M4, a dywed nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun drafft hwn gan fod LlC wedi comisiynu astudiaeth ar wahân i gynigion ar gyfer system metro i Dde-ddwyrain Cymru. Argymhellwn y dylai'r mesurau trafnidiaeth gyhoeddus yr edrychir arnynt, gyda'r nod o leihau defnydd traffig o'r M4, fod yn fwy eang na dim ond system metro (a wireddir neu nas gwireddir efallai beth bynnag). Dylid eu hymestyn i gynnwys ystyried cynlluniau, er enghraifft, i drosglwyddo cludo nwyddau i'r rheilffyrdd, bysiau, y rheilffyrdd presennol, cynlluniau rhannu car, ac ati.

**3.1.1:** Nodwn y bwriad i 'ymchwilio' i strategaeth ar gyfer cyffyrdd pe bai'r 'Llwybr Du' yn cael ei fabwysiadu. Bwriad proses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw ystyried effeithiau arwyddocaol tebygol cynigion y cynllun ar yr amgylchedd ac mae'n ymddangos yn amhriodol i unrhyw ran annatod o'r cynllun hwn gael ei ohirio, er mwyn 'ymchwilio' iddo yn y dyfodol. Mae'r methiant i gynnwys strategaethau cyffyrdd o fewn cynigion y Llwybr Du yn tanseilio gallu'r broses asesu hon i ystyried yr holl effeithiau arwyddocaol posibl (yn rhai positif a negyddol), ar y lefel strategol.

**4.2:** Croesawn y gosodiad fod ymatebion cwmpasu wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi'r adroddiad amgylcheddol hwn. Er bod Atodiad A yn cynnwys copïau o ymatebion yr ymgyngoreion statudol, nodir nad yw ymatebion gan sefydliadau eraill, yn cynnwys yr RSPB, wedi cael eu cynnwys. Ni ddarparwyd unrhyw sylwebaeth ar sut mae'r ymatebion cwmpasu 'wedi cael eu cymryd i ystyriaeth' yn y broses asesu ac yn yr adroddiad amgylcheddol hwn. Mae'r ofynnol yn ôl y Gyfarwyddeb i ymatebion ymgynghori gael eu hystyried **wrth baratoi** cynllun neu raglen a chyn ei fabwysiadu, ac awgrymir felly y dylid cynhyrchu sylwebaeth sy'n dangos sut mae'r ymatebion ymgynghori wedi cael eu hystyried o fewn y broses asesu hon.

Tynnwn eich sylw'n arbennig at ein hymateb cwmpasu ar 16eg Awst 2013, wrth gyfeirio at faterion yn ymwneud â pherygl llifogydd, adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr. Mae ein cyngor a'n sylwadau yn dal yn berthnasol ar y cam hwn a byddant yn berthnasol hefyd ar lefel prosiect yn y dyfodol.

**4.2.1:** Dylid cyfeirio at faterion 'tawelwch' yn ogystal â llygredd golau. Gweler y sylwadau ar 2.5 uchod.

**4.2.3:** Byddem yn croesawu eglurder ynglŷn â'r berthynas rhwng cwmpas amser y broses asesu a chamau datblygu, adeiladu a gweithredu disgwyliedig y cynigion eu hunain. O ystyried y cyfnod o baratoi ar gyfer y gwaith arfaethedig, a allai fod yn hir (yn cynnwys yr angen am asesiadau statudol priodol ar lefel prosiect), awgrymir y gallai fod angen newid y cwmpas amser a'r 'effeithiau tymor byr' (0-4 blynedd) yn arbennig.

**Tabl 5:**
Yn ein hymateb i gam cwmpasu'r broses asesu hon, awgrymasom y dylid cynnwys y cynlluniau a'r rhaglenni ychwanegol canlynol yn yr adolygiad.

**Ffactorau Hinsawdd a Dŵr**

- Canllawiau Llywodraeth Cymru 'Adapting to Climate Change: Guidance for Flood and Coastal Management Authorities in Wales', Rhagfyr 2011.

**Dŵr: Materion yn ymwneud ag Adnoddau Dŵr**

- Strategaeth Adnoddau Dŵr ar gyfer Cymru (yn cael ei datblygu ar hyn o bryd).
- Cynllun Sychder Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

**Dŵr: Materion yn ymwneud â Pherygl Llifogydd**

- Dylid cyfeirio ar Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Sir Casnewydd, ac at gynlluniau perthnasol i reoli llifogydd a lefelau dŵr sy'n weithredol ar Wastadeddau Gwent.
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

- Deddf Adnoddau Dŵr 1991
- Deddf Draenio Tir 1994
- Asiantaeth yr Amgylchedd – Prosiect Cenedlaethol i Fapio'r Perygl o Erydu Arfordirol

**Tirwedd a Threflun**

- Dylid cyfeirio at astudiaethau Mannau Tawel 2007 a gynhaliwyd gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar ran Llywodraeth Cymru
- Mapiau Mannau Tawel Cymru (y Cyngor Cefn Gwlad 2009).

**Tabl 9: Amcanion Amgylcheddol.**

Yn ein hymateb i gam cwmpasu'r broses asesu hon, gwnaethom y pwyntiau canlynol ynglŷn ag amcanion arfaethedig yr Asesiad Amgylcheddol Strategol:

**Amcanion Arfaethedig yr Asesiad Amgylcheddol Strategol**
**Rhif 1: Lleihau llygredd aer yn deillio o drafnidiaeth.**

Rydym yn croesawu'r amcan hwn mewn egwyddor ond byddem yn argymell ei gryfhau fel ei fod yn cyfeirio at lygredd aer a dyddodi. Dylai'r amcanion a'r nodau hefyd ystyried nid dim ond ansawdd aer yn ymyl coridor presennol yr M4 ond dylent gynnwys yr ardaloedd hynny y byddai allyriadau yn effeithio arnynt yn sgil unrhyw estyniad at goridor yr M4 (o ran ansawdd aer a dyddodi). Mae angen eglurhad ynglŷn â beth a olygir gan 'ansawdd aer' yn yr amcan hwn. Byddem yn argymell bod materion llygredd aer yn cael eu hystyried yng nghyd-destun bioamrywiaeth yn ogystal â phobl.

**2B: Mesurau i Addasu i Newid yn yr Hinsawdd.**

Croesawn yr egwyddor o geisio mesurau addasu. Fodd bynnag, awgrymir y dylai'r mesurau hynny geisio bod yn fwy na 'digonol', yn wyneb yr ansicrwydd ac o ystyried y llwybrau arfaethedig i'r de o Gasnewydd.

**4: Bioamrywiaeth**

Dylid cryfhau'r amcanion i gynnwys ystyried swyddogaeth ecolegol a chysylltedd. Siom yw nodi nad yw materion bioamrywiaeth wedi cael eu cynnwys yn Amcanion a Nodau Coridor yr M4 o ystyried y gallai'r cynigion greu cyfle i wella, adfer a chyfoethogi bioamrywiaeth a'r swyddogaeth ecolegol.

**7: Pridd**

Gweler y sylwadau uchod ar 1.3.1. Siom yw nodi nad yw materion pridd a swyddogaeth pridd wedi cael eu cynnwys yn 'Amcanion a Nodau' Coridor yr M4 o ystyried y gallai'r cynigion greu cyfle i wella, adfer a chyfoethogi'r adnodd pridd. Byddem yn argymell ymhellach bod yr Amcan i 'leihau halogi sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a diogelu ansawdd a chyfaint pridd' yn cael ei gryfhau i adlewyrchu'r potensial i waith datblygu effeithio ar safleoedd halogedig a thir y mae halogi hanesyddol yn effeithio arno.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**8: Trafnidiaeth**
Er ein bod yn cytuno, mewn egwyddor, ag Amcan 8, awgrymir y dylid ei gryfhau er mwyn cynnwys yn benodol ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear.

Mae'n siomedig nad yw'r awgrymiadau a wnaed yn ein hymateb cwmpasu ynglŷn â'r amcanion wedi cael eu hystyried yn ôl pob golwg yn ystod y broses asesu hon.

**Tabl 12:**
**Asesu Ansawdd Aer**
Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaeth wedi cael ei rhoi i effaith materion ansawdd aer ar gynefinoedd yr ardal a'r amgylchedd nad oes a wnelo â phobl.

Yn ein llythyr ymateb i'r cam cwmpasu ar 16 Awst 2013 dywedasom y byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i ansawdd aer a dyddodi llygryddion, yn enwedig ddyddodi nitrogen, NOx, SO2, ac ati. Ailadroddwn y cyngor hwn a chyfeiriwn chi at y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd am arweiniad, er y byddem hefyd yn argymell bod effeithiau'n cael eu hasesu ar safleoedd dynodedig perthnasol o fewn 200m i ymyl, yn hytrach na chanol, y llwybrau sy'n cael eu cynnig. Argymhellwn hefyd fod unrhyw Asesiad Ansawdd Aer yn cael ei gynnal yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd yng Nghanllawiau H1 Atodiad f, allyriadau aer, Asiantaeth yr Amgylchedd; a'i fod yn cymharu'r gwahanol ffyrdd/opsiynau a'r senarios Gwneud Cyn Lleied â Phosibl yn erbyn y safonau amgylcheddol perthnasol i warchod ecosystemau/llystyfiant/cynefinoedd. Cafodd yr egwyddor o ddefnyddio'r canllawiau hyn mewn perthynas â chynlluniau ffordd arfaethedig ei derbyn yng nghyswllt yr A465, a byddem yn disgwyl iddynt gael eu defnyddio yng nghyd-destun cynigion yr M4.

**Ffactorau Hinsoddol – Mesurau Addasu**
Byddem yn awgrymu y dylai effaith y seilwaith trafnidiaeth arfaethedig ar lifogydd i dderbynyddion eraill (e.e. draenio a swyddogaeth hydrolegol) fod wedi cael eu hystyried fel effaith arwyddocaol (bosibl) o fewn y broses asesu hon. Byddai hefyd wedi bod yn fuddiol i'r broses asesu hon ystyried sut y bydd y cynigion yn 'addasu' i effeithiau newid hinsawdd, yn cynnwys llifogydd. Wrth ystyried natur effeithiau newid hinsawdd, dylid dangos bod canlyniadau llifogydd ar y datblygiad arfaethedig (dros ei oes ddisgwyliedig) yn 'rhai y gellid ymdopi â nhw hyd at lefel dderbyniol', yn cynnwys unrhyw effeithiau a gâi eu hachosi i ddatblygiadau presennol, asedau materol a'r amgylchedd.

**Sŵn a Dirgryndod**
Mae'n siomedig nad yw materion tawelwch cyffredinol wedi cael eu cynnwys yn y broses asesu hon, fel yr argymhellwyd yn ein hymateb cwmpasu ar 16$^{eg}$ Awst 2013. Byddem yn awgrymu ymhellach y dylai sŵn a dirgryndod fod wedi cael eu hystyried yng nghyd-destun bioamrywiaeth (ac yn arbennig effeithiau posibl sŵn a dirgryndod ar rywogaethau pysgod mudol sy'n gysylltiedig ag afon Wysg.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna**
Ni allwn gytuno â chasgliadau'r asesiad mai 'effaith negyddol fach' a geid ar fioamrywiaeth ac argymhellwn fod hyn yn cael ei newid i 'effaith negyddol fawr', ar sail colli arwynebedd SoDdGA yn uniongyrchol ac anuniongyrchol o'r safleoedd SoDdGA ar Wastadeddau Gwent pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt. Ar y lefel strategol hon, teimlwn ei bod yn rhy gynnar i allu dweud y byddai modd lliniaru pob effaith. Rydym yn anghytuno y byddai maint y colledion yn ddibwys yng nghyd-destun safleoedd SoDdGA Gwastadeddau Gwent drwyddynt draw. Mae'r llwybrau ffordd arfaethedig i gyda wedi'u lleoli yng ngogledd ardal Gwastadeddau Gwent, ac mae potensial i unrhyw effeithiau ar un ai ansawdd dŵr neu gyfaint dŵr gael eu teimlo ar hyd a lled yr holl system ddraenio o ganlyniad i reoli lefel y dŵr yn yr ardal hon. Hefyd, mae i'r rhwystr y byddai unrhyw aliniad ffordd newydd yn ei greu oblygiadau o ran parhau i reoli'r tir a'r system ddraenio pe bai defnydd amaethyddol llesol yn mynd yn annichonadwy – y math o rheoli sydd yn draddodiadol wedi cynnal y nodweddion o ddiddordeb ar y safleoedd SoDdGA.

Mae yna hefyd agweddau eraill o fioamrywiaeth y mae angen eu hystyried, yn cynnwys rhywogaethau gwarchodedig, safleoedd eraill â dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol, a dynodiadau lleol a bioamrywiaeth.

Nodwn â diddordeb fod yr asesiad yn cyfeirio at godi colofnau pont o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afon Wysg. Mae'r datganiad hwn yn awgrymu rhyw ystyriaeth i ddyluniad y ffordd a'r bont nad yw wedi cael ei rhannu â ni ac sy'n rhagfarnu'r trafodaethau ar y cam dylunio/prosiect. Cyfeiriwch at ein sylwadau ar yr adroddiad *Ystyriaeth o'r Opsiynau ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd gan Ystyried Gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd [Consideration of the Options for the M4 Corridor around Newport with Regard to the Requirements of the Habitats Regulations]*.

**Pridd a Daeareg - Halogiad**
Rydym wedi ymdrin cyn hyn ag effaith bosibl y cynlluniau ar safleoedd tirlenwi Docks Way gan annog asesu manwl pellach ar y mater hwn, yn bennaf o safbwynt peirianyddol. Bydd hyd a lled yr effeithiau posibl yn dibynnu ar y llwybr a ddewisir yn y pen draw.

O'r sylwadau a wnaed yn y Crynodeb Annhechnegol, mae'r Llwybr Du yn bwriadu osgoi rhannau gweithredol a hanesyddol Safle Tirlenwi Docks Way. Fodd bynnag, gallai agosrwydd y llwybrau arfaethedig at y safle tirlenwi hwn effeithio ar gyfanrwydd peirianyddol y safle a gallu'r gweithredwr i reoli allyriadau. Dylid ystyried ymhellach sut y gallai gwaith ar y seiliau effeithio ar sefydlogrwydd y ddaear ar y safle tirlenwi hwn, gollyngiadau dŵr a'r drefn rheoli nwyon. Hefyd, bydd pryderon tebyg yn berthnasol i safle tirlenwi gwastraff diwydiannol Llanwern (i'r de o Queensway – Tata) a safle tirlenwi Slobland sydd wedi cau (yn Alphasteel).

Ar bwynt o eglurder, er i'n hymateb cwmpasu ar 16eg Awst 2013 ddarparu manylion am safleoedd sydd, yr ydym yn gwybod/amau'n gryf, wedi'u halogi, ni ddylid cymryd bod y rhestr hon yn un hollgynhwysfawr oherwydd gellid canfod safleoedd neu ardaloedd eraill.

Byddem yn cynghori hefyd y dylid defnyddio'r term 'halogiad tir' yn hytrach na 'Thir Halogedig'. Mae'r olaf yn derm cyfreithiol sy'n cyfeirio at safleoedd penodedig o dan Ran IIa o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw safleoedd perthnasol i'r cynllun drafft nac opsiynau amgen rhesymol sydd wedi'u pennu'n 'dir halogedig', ond byddem yn cynghori y dylid ymgynghori â'r Awdurdod Lleol (fel y rheoleiddiwr arweiniol o fewn y gyfundrefn Tir Halogedig).

**Dŵr**

Crybwyllir newidiadau i'r gyfundrefn hydrolegol fel mater allweddol, ond nid yw hyn yn cael ei ystyried yn llawn yn Asesiad Dŵr Tabl 20. Tra ydym yn cefnogi'r sylwadau am ddŵr ffo a pherygl llifogydd, dylai'r risg o newidiadau i'r gyfundrefn hydrolegol o bersbectif llif isel ac effeithiau dyddodi posibl hefyd fod wedi cael ei hystyried yn y broses asesu hon. Byddem hefyd yn awgrymu y dylid, o dan bwnc "dŵr" yr asesiad hwn, fod wedi rhoi ystyriaeth ychwanegol i gyfaint dŵr yn ogystal ag ansawdd dŵr.

Nid yw'n ymddangos bod prif afonydd statudol ychwanegol ar wahân i afon Wysg wedi cael eu crybwyll o gwbl, er enghraifft, afon Ebwy. Er nad yw'r cwrs dŵr hwn wedi'i ddynodi'n safle ecolegol gwarchodedig, mae'n cael ei adnabod fel prif afon.

Er ein bod yn sylweddoli bod Monks Ditch wedi cael ei ystyried efallai fel rhan o'r rhwydwaith gwyrdd ehangach, dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r ffos hon gan nad yw'n cyrraedd safonau WFD ar hyn o bryd a gallai fod cyfleoedd i wella'i safon.

**Asedau Materol**

Mae angen eglurhad o'r datganiad yr ystyrir bod buddion tymor hir o ran defnydd cynaliadwy ar adnoddau naturiol ac ynni yn sgil defnyddio defnyddiau yn ystod y gwaith adeiladu yn cyfiawnhau asesiad o 'effaith negyddol fach'. Byddem yn awgrymu mai diben proses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw ystyried effeithiau posibl cynllun ar yr amgylchedd (yn cynnwys asedau materol) er mwyn cyfrannu at y broses benderfynu. Mae'n annhebygol y bydd 'ffeirio' effeithiau amgylcheddol yn erbyn gwahanol asedau amgylcheddol o gymorth, ac mae'n golygu nad yw natur a hyd a lled effeithiau amgylcheddol posibl yn glir. Nid oes unrhyw ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r effeithiau y gallai'r cynigion eu hachosi i asedau materol presennol e.e. seilwaith dŵr, tai, ac ati. Ni allwn felly gytuno â'r asesiad hwn mai 'effaith negyddol fach' a gâi ei hachosi i asedau materol.

Wrth gyfeirio at fesurau lliniaru a/neu wella, nodwn fod yr hierarchaeth gwastraff, cael defnyddiau o ffynonellau lleol, a gweinyddu cynllun rheoli gwastraff, i gael eu hystyried ymhellach. Oherwydd halogi hanesyddol ar dir, mae'n debygol y bydd llawer iawn o ddefnyddiau yn anaddas i'w hailddefnyddio, felly dylid ystyried gwaredu neu drin y gwastraff hwn yn ddiogel ar y 'safle' neu oddi arno.

**Treftadaeth Ddiwylliannol**
Cytunwn â'r asesiad o 'effaith negyddol fawr' a nodwyd mewn perthynas â'r effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol. Rydym yn cyfeirio'n benodol at y ffaith y byddai darn helaeth o unrhyw ffordd newydd sy'n cael ei hystyried ar Goridor yr M4 o amgylch Casnewydd yn mynd drwy safleoedd dynodedig Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru Gwastadeddau Gwent.

**Tirwedd a Threflun**
Cytunwn â'r asesiad o 'effaith negyddol fawr' a nodwyd mewn perthynas â'r effaith ar dirwedd a threflun.

**7.2:** O dan broses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, mae'n ofynnol ystyried effeithiau eilaidd, cronnus, synergaidd, tymor byr, canolig a hir parhaol a dros dro, cadarnhaol a negyddol (Atodiad 1, f(1)). Byddem yn croesawu eglurhad ynglŷn â pham nad yw'r effeithiau cronnus ond wedi cael eu hystyried mewn perthynas â chynlluniau trafnidiaeth a Chynllun Gofodol Cymru.

**7.4: Cyfyngiadau**
Ceisiwn eglurhad o'r pwynt bwled cyntaf, "Uncertainties were encountered surrounding the following: Uncertainty as to the success in achieving behavioural changes to result in a modal shift to more sustainable modes of travel". Fel y mae wedi'i ysgrifennu ar hyn o bryd, nid yw'r pwynt yr ymdrechir ei wneud yn glir ac rydym yn argymell ei fod yn gael ei ailysgrifennu a'i symleiddio.

Nodwn hefyd nad oes digon o wybodaeth ar gael ar y cam strategol hwn i ganfod a gwerthuso risg a hyd a lled y tir halogedig y gallai'r Cynllun drafft, neu gynnig amgen rhesymol, ei groesi. Câi gwybodaeth o'r fath ei phennu ar lefel prosiect.

**Adran 8: Lliniaru**
Nodwn o'r sylwadau a wnaed yn Adran 8, Lliniaru, yr ymgymerir â mesurau lliniaru ychwanegol a mireinio opsiynau ar lefel prosiect fanwl. Yn ein barn ni dylai unrhyw liniaru angenrheidiol gael ei seilio hefyd ar ganlyniadau unrhyw arolygu, ymchwiliadau ac asesiadau yr ymgymerir â nhw ar gyfer y Cynllun a/neu ar lefel prosiect fanwl. Byddem yn disgwyl ymgynghori a thrafod pellach â Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â mesurau osgoi a lliniaru.